Awdurdod Heddlu
DYFED-POWYS
Police Authority

Adroddiad Blynyddol Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd a Lles Anifeiliaid

2008-09

Rhagair

Mae Ymweliadau â'r Dalfeydd yn hanfodol er mwyn craffu ar yr amodau ynddynt a'r driniaeth a gaiff unigolion sydd dan glo yn ardal Dyfed Powys.

Mae'n bwysig cydnabod cyfraniad gwirfoddolwyr, ac ymrwymiad a brwdfrydedd parhaus y rhai sy'n rhoi o'u hamser i gynorthwyo'r cynllun ymweld, a hoffwn estyn fy niolch personol iddynt oll.

Mae'n bleser gan yr Awdurdod gydnabod bod yr ymweliadau parhaus a wneir i holl ddalfeydd yr heddlu yn dangos bod y driniaeth a gaiff unigolion dan gadwad yn deg ac yn cyd-fynd â'r rheolau a'r rheoliadau a nodir yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE).

Alasdair Kenwright
Cadeirydd yr Awdurdod Heddlu

Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Ymweliadau Annibynnol â'r Dalfeydd yn golygu bod modd i aelodau'r cyhoedd gadw golwg ar les unigolion dan gadwad yng nghelloedd yr heddlu, gan sicrhau eu bod yn cael eu trin yn unol â'r gofynion cyfreithiol llym sy'n rheoli'r broses o'u cadw yno.

Caiff y cynllun ei redeg gan dîm o wirfoddolwyr sydd wedi mynegi diddordeb mewn bod yn ymwelwyr dalfeydd, ac sydd wedi bod yn destun archwiliadau fetio priodol.

O fewn ardal Heddlu Dyfed Powys, ceir saith gorsaf heddlu sy'n cynnwys dalfeydd dynodedig, a nodir y rhain isod:

Cynhelir ymweliadau mewn parau ac ni roddir unrhyw rybudd yn eu cylch. Bydd modd i'r ymwelwyr fynd i ddalfeydd yr heddlu yn syth, oni bai y byddai gwneud hynny yn eu rhoi mewn perygl personol. Gallant siarad gydag unrhyw un yn y celloedd (gyda rhai eithriadau prin iawn), ond mae'n rhaid sicrhau caniatâd yr unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn gyntaf.

Codir unrhyw faterion sy'n peri pryder gyda'r Siarsiant ar ddyletswydd. Bydd Ymwelwyr Dalfeydd yn paratoi adroddiad ysgrifenedig, a bydd un copi yn cael ei gadw yn yr orsaf heddlu, un arall yn cael ei ddychwelyd i Weinyddwr y Cynllun yn Awdurdod yr Heddlu ac anfonir un arall ymlaen at y Prif Arolygydd sy'n gyfrifol am ddalfeydd ar draws ardal Heddlu Dyfed Powys.

Ar hyn o bryd, 64 yw'r nifer y gellir eu cadw mewn celloedd yn ardal yr Heddlu, ac mae modd dadansoddi'r ffigwr hwn fel a ganlyn:

Custody Suites Location
Sir Gaerfyrddin
Llanelli
Rhydaman
Caerfyrddin
Sir Benfro
Haverfordwest
Ceredigion
Aberystwyth
Powys
Y Drenewydd
Aberhonddu

Niferoedd y mae modd eu cadw mewn celloedd	
Sir Gaerfyrddin	20
Sir Benfro	17
Ceredigion	10
Powys	17

Ymwelwyr Dalfeydd

Rhaid i ymwelwyr dalfeydd fod yn annibynnol – ni chânt fod yn gyflogeion yr Heddlu nac Awdurdod yr Heddlu. Ni chaniateir iddynt gael unrhyw gyswllt gyda'r system cyfiawnder troseddol – a dylent adlewyrchu'r gymuned o fewn Dyfed Powys. Rhaid i ymwelwyr fod yn byw, yn gweithio neu'n astudio yn yr ardal y byddant yn cynnal ymweliadau ynddi.

Cyn iddynt gyflawni eu rôl, cynhelir archwiliadau geirda a fetio priodol ohonynt. Bydd ymwelwyr yn cael eu recriwtio bob 3 blynedd, ond mae modd adnewyddu eu cyfnod yn y swydd.

Ar hyn o bryd, mae gan gynllun Dyfed Powys 31 o Ymwelwyr (14 gwrywaidd ac 17 benywaidd) gan gynnwys 6 aelod a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2009. Ar hyn o bryd, mae eu hoedran yn amrywio o 29 i 76 (yr oedran ieuengaf a ganiateir yw 18 ac ni cheir terfyn oedran uchaf). Mae'r Awdurdod Heddlu wedi nodi bod angen rhagor o bobl ifanc a'r rhai sy'n gallu siarad ieithoedd eraill (yn enwedig y Gymraeg) er mwyn sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu'r gymuned a wasanaethir gennym yn well.

Er nad oes unrhyw leoedd gwag yn y cynllun ar hyn o bryd, anogir unrhyw un sydd â diddordeb mewn bod yn Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol i ymgeisio, a byddwn yn cadw eu manylion er mwyn eu hystyried yn y dyfodol.

Ymweliadau

Y targed o ran ymweliadau ym mwyafrif y gorsafoedd yw dwywaith y mis. Fodd bynnag, efallai na fydd unrhyw unigolion dan gadwad yno pan gynhelir ymweliad. Yn ogystal, mae gan y rhai a gedwir yn y ddalfa yr hawl i wrthod ymweliad. Heblaw'r rhai sy'n gwrthod rhoi eu caniatâd, gellir atal ymwelwyr rhag siarad gydag unigolion a gedwir yn y ddalfa os ydynt yn cysgu, yn analluog oherwydd diod / cyffuriau neu faterion iechyd meddwl; yn cael eu cyfweld, yn gweld y meddyg neu yn cael eu rhyddhau ar y pryd. Mewn achosion pan na fo'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn siarad Saesneg, bydd modd manteisio ar wasanaeth cyfieithu.

Cwmpas ymweliadau

Yn ogystal â siarad ag unigolion a gedwir yn y ddalfa, rhaid i Ymwelwyr Dalfeydd archwilio'r amodau ar gyfer cadw unigolion yn y ddalfa, gan sicrhau bod stociau digonol o nwyddau ac offer yn cael eu cadw yno. Nodir unrhyw elfennau annigonol a diffygiol yn y ffurflenni adrodd am ymweliadau, a chynhelir archwiliadau dilynol o'r sefyllfa.

Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn

Ar 1 Tachwedd 2008, gwelwyd Gweinyddwr y Cynllun, ynghyd ag Ymwelydd Dalfeydd, yn mynychu Cynhadledd Genedlaethol Cymdeithas yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol (ICVA). Roedd y diwrnod yn canolbwyntio ar y cynigion a gyflwynir yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) yn y rownd ymgynghori olaf hon cyn cymeradwyo. Yn ogystal, darparwyd gwybodaeth am y rhaglen 6 blynedd i gydarolygu dalfeydd yr heddlu gan Arolygydd Heddlu Ei Mawrhydi ar y cyd ag Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi, a lansiwyd ym mis Mawrth 2009. Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch canfyddiadau adolygiad Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu ac adolygiad y Swyddfa Gartref o ymweliadau dalfeydd, a oedd yn argymell y dylid hwyluso'r rolau a gyflawnir gan Gymdeithas yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol (ICVA) ar hyn o bryd.

Yna, cynhaliwyd cyfarfodydd rhanbarthol gydag ymwelwyr dalfeydd tua diwedd mis Tachwedd er mwyn cyfleu gwybodaeth a gyflwynwyd yn ystod y Gynhadledd Ranbarthol, ac er mwyn cynnig cyfle i ymwelwyr ddod ynghyd ar lefel ranbarthol i drafod unrhyw faterion a rhannu arfer gorau.

Yn ystod Diwrnod Agored yr Heddlu a gynhaliwyd ar 28 Medi 2008, lansiwyd ymgyrch recriwtio er mwyn denu ymwelwyr dalfeydd newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Phowys. Yna, cynhaliwyd diwrnod gwybodaeth ym mis Ionawr 2009, a oedd yn cynnig dealltwriaeth gadarn i'r ymgeiswyr ynghylch rôl a gofynion ymwelwyr dalfeydd. Cynhaliwyd y diwrnod hwn cyn y cyfweliadau er mwyn sicrhau bod pobl yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o'r hyn sy'n ofynnol. Yna, roedd yr ymgeiswyr yn gallu dewis a oeddent yn dymuno cael eu hystyried am gyfweliad neu beidio. Mabwysiadwyd y dull gweithredu hwn er mwyn cynyddu'r cyfraddau cadw. Cynhaliwyd cyfweliadau ym mis Mawrth 2009, ac ar 1 Ebrill 2009, cychwynnodd chwe ymwelydd newydd.

Yn ogystal, cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant ar 1 Ebrill 2009, a oedd yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth, a allai godi wrth gyflawni rôl Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol. Darparwyd yr hyfforddiant hwn gan Mr Mike Maynard, cyn heddwas sydd wedi cynnig hyfforddiant tebyg i heddweision a staff. Roedd yr adborth a gafwyd ynghylch y diwrnod yn hynod o gadarnhaol.

Datblygwyd perthynas gyda'r bedair asiantaeth wirfoddol yn ardal yr heddlu, gyda'r nod o ddarganfod ffyrdd ychwanegol o hyrwyddo'r cynllun.

Blwyddyn	Nifer yr ymweliadau a wnaethpwyd gan Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol	Nifer yr unigolion a gedwir yn y ddalfa a roddodd eu caniatâd i ymweliad	Nifer yr unigolion sydd wedi bod yn y ddalfa
2004	173	83	18,688
2005	139	87	19,214
2006	137	100	20,294
2007	127	114	18,713
2008/09*	127	101	16,985

Ystadegau ynghylch Ymweliadau

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2009, cynhaliwyd 127 ymweliad ar draws ardal Dyfed Powys. Rhoddir dadansoddiad o'r rhain isod:

Ymweliadau fesul ardal yn ystod 2008/09	
Sir Gaerfyrddin	55
Sir Benfro	33
Ceredigion	23
Powys	16
Cyfanswm	127

At ei gilydd, siaradwyd gyda 101 o unigolion a gadwyd yn y ddalfa. Mae'r tabl canlynol yn cynnig dadansoddiad ynghylch nifer yr ymweliadau a gynhaliwyd, nifer yr unigolion a gadwyd yn y ddalfa a roddodd eu caniatâd ar gyfer ymweliad, ynghyd â nifer yr unigolion sydd wedi bod yn y ddalfa dros y bum mlynedd briodol:

Mae'r tabl yn nodi bod nifer yr ymweliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn 2008/09 wedi aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn er gwaethaf gostyngiad yn nifer yr Ymwelwyr yn ystod y cyfnod hwn. Bellach, rhoddwyd sylw i'r gostyngiad hwn trwy gyfrwng yr ymgyrch recriwtio bresennol, ac mae Awdurdod yr Heddlu yn falch i adrodd bod y cynllun yn cynnwys nifer llawn yr ymwelwyr erbyn hyn.

* Bellach, adroddir ystadegau ar sail blwyddyn ariannol, yn wahanol i'r ystadegau a adroddwyd yn flaenorol, a seiliwyd ar flwyddyn galendr.

Effeithiolrwydd y Cynllun

Mae gweinyddu cynllun ymweliadau dalfeydd effeithiol wedi bod yn ofyniad statudol ar gyfer pob Awdurdod Heddlu ers 2003. Pan gychwynnwyd y cynllun yma yn ardal Dyfed Powys, roedd yr ymwelwyr yn aml yn wynebu amheuaeth oherwydd y tybiwyd eu bod yn cyflawni rôl herio a chraffu. Wrth i'r cynllun ddatblygu, mae ymwelwyr dalfeydd wedi sôn am berthynas waith dda gyda staff dalfeydd, wedi'u seilio ar barch ar y ddwy ochr. Mae hyn wedi deillio o feithrin perthnasoedd gwaith a chyfraniadau a wnaed i gyrsiau hyfforddi sarsiantiaid dalfeydd. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei ymestyn i hyfforddiant Swyddogion Cynorthwyol y Ddalfa nawr hefyd.

Mae'r berthynas waith rhwng yr ymwelwyr dalfeydd a staff dalfeydd wedi gwella o ganlyniad i rôl yr ymwelwyr fel 'cyfaill beirniadol'. Yn aml, rhoddir sylw i faterion a godir gan ymwelwyr dalfeydd yn gyflymach na phe baent wedi cael eu codi gan staff dalfeydd.

Yn dilyn trafodaethau gydag unigolion a gedwir yn y ddalfa a'r adolygiad o'r dalfeydd, amlygwyd y materion canlynol mewn adroddiadau:

- Ymchwiliwyd yn llawn i honiadau ynghylch camdriniaeth wrth arestio, ac ni chafodd unrhyw gwynion eu canlyn.
- Deliwyd â phwyntiau clymu posibl mewn iard ymarfer, gan leihau'r risg y bydd unigolion a gedwir yn y ddalfa yn niweidio'u hunain.
- Gwaredwyd matresi a gobennydd diffygiol a deliwyd â materion a oedd yn ymwneud â gwresogi / awyru, gan sicrhau bod amgylchedd dalfeydd yn cydymffurfio â safonau rheoledig.

Casgliad

Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus arall o ran gweithredu'r cynllun ymweliadau dalfeydd. Croesawyd ymwelwyr newydd i'r cynllun, a mawr obeithiwn y byddant yn gwasanaethu am nifer o flynyddoedd i ddod. Mae'r Awdurdod yn adolygu ei brosesau yn barhaus er mwyn gwella effeithiolrwydd y cynllun ymweliadau dalfeydd, ac er mwyn cynyddu'r cymorth a roddir i'w dîm gwerthfawr o wirfoddolwyr.

Cynllun Lles Anifeiliaid

Sefydlwyd y Cynllun Lles Anifeiliaid yn 2001 yn ardal Dyfed Powys. Dan y cynllun, bydd Awdurdod Heddlu Dyfed Powys, uned gŵn Heddlu Dyfed Powys, yr RSPCA, y Canine Defence League a chynrychiolwyr o'r pedwar Cyngor Sir, yn cydweithredu.

Mae mwyafrif yr Ymwelwyr Lles Anifeiliaid yn wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser o ganlyniad i'w hoffter o anifeiliaid. Mae'r Ymwelwyr yn trefnu ymweliadau gyda thrafodwyr cŵn neu gallant ymweld â'r cŵn heb roi unrhyw rybudd ymlaen llaw.

Lles y ci yw prif amcan yr Ymwelydd. Byddant yn archwilio'r amodau byw, cyflwr yr anifeiliaid a'r berthynas rhwng y trafodwr a'r ci.

Cynhaliwyd 12 ymweliad yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2009, ac ymwelwyd â 24 ci yn ystod y cyfnod hwn. Unwaith eto, bu adborth yr Ymwelwyr Lles Anifeiliaid yn hynod o gadarnhaol, gan adrodd ynghylch iechyd a hapusrwydd y cŵn:

Roedd y seminar flynyddol eleni, a gynhaliwyd ar 23 Medi 2008, yn cyd-fynd ag agoriad y cenelau cŵn newydd a swyddfeydd newydd yr Adran Gŵn ym Mhencadlys yr Heddlu, Llangynnwr, Caerfyrddin. Mae'r safle newydd, a gostiodd £225,000, yn cynnwys ystafell milfeddyg, deg cenel, storfa bwyd cŵn, storfa offer arbenigol a safle ymarfer yn yr awyr agored er mwyn hyfforddi'r cŵn. Bu'n rhaid ehangu'r cyfleusterau o ganlyniad i'r ffaith bod y tîm yn tyfu, a'i fod wedi dyblu o ran ei faint dros y deng mlynedd ddiwethaf, ac erbyn hyn, mae'n cynnwys 36 o gŵn ac 19 o drafodwyr (wedi'u lleoli ar draws ardal yr Heddlu).

Dylid cynnwys llun o ddiwrnod agored y cenelau cŵn.

Agorwyd y cynelau yn swyddogol gan Brif Arolygydd Ian Arundale a Chadeirydd y Pwyllgor Ymgysylltu â'r Gymuned a Chysylltiadau Allanol, Mr Ken Howell. Mynychwyd y digwyddiad gan ymwelwyr lles anifeiliaid o'r ardal hon, yn ogystal ag ymwelwyr o ardal De Cymru a Gwent, a oedd yn falch iawn i weld safon y cyfleusterau ar gyfer y cŵn a'u trafodwyr.

Visiting Comments

Roedd Tess yn heini ac yn weithgar iawn, ac nid yw'n ymddangos ei bod yn dioddef unrhyw broblemau iechyd, ac mae hyn yn cael ei gadarnhau gan y trafodwr. Gwelwyd perthynas gref iawn rhwng y ci a'r trafodwr.

Mae Meg yn gi egniol iawn ac mae'n hoff iawn o weithio, gan droedio llawer o dir wrth chwilio. Mae'n bleser gweld yr ymdrech a wneir ganddi.

Cynllun Gafalwyr Cŵn Bach

O ran y Cynllun Gafalwyr Cŵn Bach, nodwyd nifer o "ofalwyr" erbyn hyn, ac mae nifer o gŵn bach wedi cael lle mewn cartrefi. Yn anffodus, ni lwyddodd pob ci bach a gychwynnodd ar y cynllun i gyrraedd y safon angenrheidiol. Bu'n rhaid dychwelyd un i'r bridiwr a bu'n rhaid chwilio am gartref newydd ar gyfer un arall gan nad oedd yn addas ar gyfer y rôl.

Mae'r ci bach cyntaf dan y Cynllun Gofalwyr Cŵn Bach bellach wedi cychwyn ar ei waith – defnyddir 'Zhar y Ci Heddlu' fel ci dibenion cyffredinol trwyddedig, er mwyn olrhain a darganfod, a'i drafodwr yw PC 667 Iwan Davies yng Ngheredigion. Ar hyn o bryd, mae dau gi bach arall wedi cael eu rhoi gyda gofalwyr, ac archebwyd un ci bach ychwanegol, a fydd yn cyrraedd yr Heddlu ddiwedd mis Mai 2009, ac a fydd yn cael ei leoli gyda gofalwyr hefyd.

Yn ogystal, mae'r Adran Gŵn wedi cael rhodd o £1,200 gan deulu a gynorthwywyd gan wasanaethau'r adran gŵn. Roedd y tîm wedi bod o gymorth wrth ddod o hyd i unigolyn a oedd ar goll, a ddarganfuwyd gan y cŵn, ond a oedd, yn anffodus, wedi marw. Mae'r rhodd hwn wedi galluogi'r adran i brynu ci ac offer newydd, a fydd o fudd iddynt oll.

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Florence Louisa Lewis ym 1982 yn dilyn marwolaeth Florence Louisa Lewis, a adawodd gymynrodd yn ei hewyllys i Awdurdod Heddlu Dyfed Powys, er mwyn prynu a chadw cŵn heddlu. Gall unrhyw un sy'n dymuno rhoi arian i'r gronfa hon wneud hynny trwy gysylltu â'r:

Prif Weithredwr
Awdurdod Heddlu Dyfed Powys
Blwch Post 99
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF

Ffôn: 01267 226440
E-bost: police.authority@dyfed-powys.pnn.police.uk

Rhif Elusen: 512679

Er mwyn cydnabod eu cyfraniad at blismona, yn enwedig o ran dod o hyd i ddioddefwyr, troseddwyr a sylweddau, dyfarnwyd gwobr Tîm Gweithrediadol y Flwyddyn i'r Adran Gŵn gan y Prif Gwnstabl Ian Arundale ym mis Hydref 2008.